"O'R BWTHYN I'R PALAS"

Helen O'Shea Ellis #2621

Ganed John Edward Parry yn fab i Edward Parry a Magdalen Richard yn Llanuwchllyn ac yn y man ganed o leiaf 4 plentyn arall iddynt sef Gwen (1806) Elin (1808) Sarah (1812) a Margaret (1816). Bu farw Magdalen, y fam, pan yr oedd Margaret (fy ail hen Nain) yn 2 oed ac, yn ôl y sôn, aeth y plant ieuengaf ar wasgar at rai o'r teulu i'w magu.

diad ar 16eg Mehefin 1854 fel *"Fourth Clerk of the Kitchen"* yn y Palas ac yna ar 1 Mehefin 1855 iddo gael ei drosglwyddo i adran yr Arglwydd Ganghellor, sef y person oedd yn gyfrifol am uwch weision y Frenhines, a'i ddyrchafu i fod yn *"Groom of the Great Chamber"* (yn wreiddiol am gyfnod o 6 mis ond bu yn y swydd hyd ei farwolaeth ar 31 Hydref 1875).

Palas Buckingham tua 1847

Yr oedd John Edward, y mab hynaf, fodd bynnag, ers yn ifanc iawn, yn arfer dilyn ei dad i Swydd Amwythig yn ystod yr haf, fel yr arferai llawer o ddynion o ardal Penllyn, i fynd i weithio yn y cynhaeaf. Mae'n debyg i'r bachgen bach, ymhen rhai blynyddoedd, ddod yn wâs bach i'r teulu Ormsby-Gore (sef teulu yr Arglwydd Harlech, Brogyntyn, ger Croesoswallt). Drwy amrywiol hanesion teuluol cafwyd ar ddeall fod y gwâs bach yma wedi cyrraedd swydd uchel iawn ym Mhalas Buckingham. Mae'n rhesymol dyfalu mai drwy gysylltiadau y teulu Ormsby-Gore y cyrhaeddodd yno ond, rhaid oedd gwirio'r hanesion hynod yma.

O gysylltu gyda'r Archifdy Brenhinol derbyniwyd tystiolaeth a dogfennaeth fod John Edward wedi cael ei benodi i swydd gyda'r Frenhines Adelaide ym Mhalas Buckingham fel *"Page of the Backstairs"* yn 1840 ac wedi ei gwasanaethu hi hyd ei marwolaeth yn 1849.

Nid oedd ganddynt wybodaeth am ei hanes rhwng y dyddiad yma a'i beno-

Dyma dystiolaeth ddifyr dros ben a gwyddem hefyd ei fod wedi bod yn byw yn un o gartrefi yr Arglwydd Harlech sef Y Glynn (neu yn swyddogol Glyn Cywarch) Talsarnau am o leiaf ugain mlynedd tra yn gweithio fel Asiant swyddogol i'r stâd yn ystod yr un cyfnod. Oherwydd fod tystiolaeth o'i benodiad a'i wasanaeth fel Ustus Heddwch parchus ym Meirionnydd, yn sicr o'r 1860au ymlaen, ac yn ymddangos yn rheolaidd ar y Fainc leol a thu hwnt fe achosodd hyn ychydig benbleth inni ac yntau hefyd yr un adeg yn *"Groom of the Great Chamber"*.

O ymchwilio ymhellach deallwyd fod yr uwch Swydd yn y Palas yn un o'r 10 Swydd Segur a gyflwynwyd fel rhodd gan yr Arglwydd Ganghellor i rai o brif weision y Tŷ Brenhinol a thalwyd iddynt y swm o 40 punt y flwyddyn. Yr unig ddyletswyddau oedd yn rhaid ymgymryd â hwy oedd i ymddangos yn achlysurol mewn rhai seremoniau megis angladdau brenhinol neu achlysur tebyg. Ymddengys fod y tâl a delid i'r 10 wedi sefyll yr un swm er cyfnod Sior 3! Wel ia. Swydd er anrhydedd a thâl yn dod gyda hi! Beth well? Yn

dilyn y fframwaith fras yma llifodd y wybodaeth am y bachgen o gefndir tlawd a ddaeth yn un o Uwch weision ei Mawrhydi.

Daeth i'n sylw yn yr Archifdy yn Nolgellau hen lyfr copi ysgol o eiddo Peryddon, un o gyfranwyr cyson y *Seren*, papur ardal Penllyn a'r teitl ar flaen y llyfr copi yma oedd **"O'r Bwthyn i'r Palas"** .

O'r cliw bach yma archebwyd yr eitem ac yn wir dyma oedd darganfyddiad! Nofel a ymddangosodd yn y *Seren* yn ôl yn y 1920au fesul pennod wythnosol ac wedi ei selio ar y bachgen bach o'r bwthyn a gyrhaeddodd y Palas. Er y disgrifir hon fel nofel ddychmygol fe nodai Peryddon ei bod wedi ei selio ar gymeriad arbennig o'r ardal. Gan ein bod wedi darganfod y ffeithiau cywir erbyn y daethom ar draws stori Peryddon yr oedd hon yn cadarnhau llawer iawn o'r ffeithiau hynny ac yn sicr yr oedd yr hanes yma wedi dod i sylw'r werin ar lafar dros y blynyddoedd.

Er nad oedd gan yr Archifdy Brenhinol fanylion o hanes John Edward rhwng 1849 ac 1854 fe wyddom mai yn Swydd Amwythig yr oedd yng Nghyfrifiad 1851. O'r ffaith yma a'i briodas â merch o Wrecsam (gweler isod) mae'n bosibl mai yn ôl gyda'r teulu Ormsby-Gore yr oedd yn y cyfnod yma neu gyda theulu ei dad yng nghyfraith a oedd yn wreiddiol o ardal Daywell yn y sir.

Yn 1855 priodwyd John Edward a Mary Jane Edwards, yn Eglwys y Plwyf Wrecsam. Merch i Edward Edwards a'i wraig Elizabeth, Price gynt, oedd Mary a'i mam Elizabeth yn ferch i John Price, perchennog stâd Pentrefelin yn Wrecsam a'i thad Edward yn ficer. Gwyddom i Elizabeth Edwards, mam Mary Jane etifeddu rhan o stâd Pentrefelin gyda'i chwiorydd ac ymfudo yno pan fu farw ei gŵr Edward yn 1845 ac yno yr oedd yn preswylio yn ystod cyfrifiad 1851.

Yn dilyn y briodas cartrefodd y pâr priod, John Edward a Mary Jane, yn Y Glynn,Talsarnau hyd ei ymddeoliad fel yr Asiant tir ond yn fuan wedyn bu farw John Edward ym Maes y Neuadd, Talsarnau ar 31 Hydref 1875.

Yn y *Faner* dyddiedig 10 Tachwedd ceir adroddiad llawn o'r angladd ac fe ddisgrifir John Edward fel "Boneddwr siriol a charedig, Ynad Heddwch dros Sir Feirionnydd a thra haelionus wrth y tlodion"

Ceir ei hanes yn y Palas Brenhinol yn Llundain ac fel asiant tir dros Siroedd Caernarfon a Meirionnydd i'r teulu Ormsby-Gore a'i fod yn ei flynyddoedd olaf wedi rhoi y swydd honno i fyny oherwydd afiechyd ac wedi prynu ystâd Moel y Garnedd yn y Bala lle yr adeiladodd balas iddo ef a'i wraig i fwynhau eu hen ddyddiau (a hynny dafliad carreg o gartref ei chwaer a'i theulu ym Mhenlan). Ond ni chafodd ei ddymuniad ac fel hyn yr adroddir am ei daith olaf yn y *Faner* "Dygwyd ei weddillion o Maes y Neuadd i Moel y Garnedd gyda thrên arbennig ac fe'i claddwyd yn Eglwys Crist, Y Bala. Tra yr oedd yr orymdaith angladdol yn mynd trwy'r dref yr oedd yr holl siopau wedi eu cau a'r llenni wedi eu tynnu i lawr ar bob ffenestr"

Mae ymchwilio yr hanes wedi bod yn ddiddorol iawn ac er inni, yn achlysurol, chwilio am erthygl neu hanesyn newydd am John Edward Parry digon diffaith yw'r ymchwilio wedi bod hyd ddechrau'r flwyddyn pan ddaeth nodyn i'n sylw ar y we fel a ganlyn:-

Glyn Cywarch Talsarnau heddiw

"Victorian scrap album. Compiled by Mr John Edward Parry, Glynn Hall, Talsarnau, Merionethshire, containing albumen photographs of Glynn Hall and livestock, carte-de-visite photographs, topographical engravings, a few pencil drawings, local black-border funeral invitations, a few signed free fronts addressed to Queen Adelaide and other minor nobility, a watercolour view of Canford House, etc., some material excised, contemp. half morocco, worn with some leaves loose!."



CERTIFIED COPY OF AN ENTRY COPI DILYS O GOFNOD
Pursuant to the Marriage Act 1949

No. Rhif 448 | Marriage solemnized at Priodas a weinyddwyd yn | the Parish Church | in the district of yn ardaith | Wrexham | in the County of Denbigh

1. When married Pryd y priodwyd	2. Name and surname Enw a chyfenw	3. Age Oed	4. Condition Cyflwr	5. Rank or profession Safle neu beneficiaw	6. Residence at the time of marriage Preswylfa adeg priodi	7. Father's name and surname Enw a chyfenw'r tad	8. Rank or profession of father Safle neu beneficiaw
July 25th	John Edward PARRY	49	Bachelor	In Her Majesty's Household	London	Edward PARRY	Farmer
1855	Mary Jane EDWARDS	36	Spinster	———	Wrexham	Edward EDWARDS	Clerk

Married in the Parish Church according to the Rules and Ceremonies of the Established Church, by Licence by

This marriage was solemnized between us, John Edward Parry, in the presence of us, Fred^k B Jones, James Dixon, Curate

Gwenyddwyd y briodas hon rhyngom ni, Mary Jane Edwards, yn ein presenoldeb ni, Elizabeth Price

Certified to be a true copy of an entry in a register in my custody. Tystiolaethwyd ei fod yn gopi cywir o gofnod mewn sefnestr a gedwir gennyf i.

Registrar Cofrestrydd 26th February 2001

Registration District Dosbarth Cofrestru WREXHAM

WARNING: A CERTIFICATE IS NOT EVIDENCE OF IDENTITY

RHYBUDD: NID YW TYSTYSGRIF YN PROFI PWY YDYCH CHI.

Wel wir i chi yr oedd gweld yr uchod yn codi'r galon am eiliad gan mai nodyn ydoedd yn cynnig Llyfr Sgrap ar werth mewn ocsiwn ac yn cael ei ddisgrifio fel Llyfr Sgrap John Edward Parry Y.H. Glynn Hall,Talsarnau. Trysor yn wir. Yn drist iawn ocsiwn yn ystod 2013 oedd hon ac, mewn ychydig ffydd yn unig, cysylltwyd â'r cwmni oedd yn gwerthu a chafwyd enw y prynwyr ganddynt. Cwmni o Lundain yn arbenigo mewn eitemau o werth i gasglwyr arbennig oedd y cwmni yma ac yn dilyn ein galwad atynt cafwyd y newyddion, fel yr ofnem, fod y trysor yma wedi ei werthu fesul eitemau unigol o'r un natur.

Lle fu y Llyfr Sgrap arbennig yma o 1875 hyd 2013 tybed?

Pwy a ŵyr! ■

FROM COTTAGE TO PALACE

This is the story of John Edward Parry, son of Edward Parry and Magdalen Richard of Llanuwchllyn, who from a humble home, rose to become a *Page of the Backstairs* to Dowager Queen Adelaide from 1840 to 1849 and eventually was granted a sinecure to be *Groom of the Great Chamber* to Queen Victoria from 1855-1875, one of the few honours bestowed upon highly respected members of the Royal Household.

During this period, he was also Agent for the Brogyntyn estate for the Ormsby-Gore family for Caernarvonshire and Merioneth at Glynn Hall, Talsarnau and a highly respected J.P for the County of Merioneth. His wife Mary Jane was the only daughter and heiress of Rev. Edward Edwards of Daywell in Shropshire. ■